Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.
(01639) 842129
YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

Ionawr 2018

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Blwyddyn Newydd Dda – Ionawr 2018

Ar ddechrau blwyddyn newydd arall, hoffwn ddymuno ichi pob llawenydd a llwyddiant yn y flwyddyn i ddod Hoffwn rannu gyda chi ychydig am drefniadau'r tymor hwn. Fel arfer mae mwy o wybodaeth gyfredol ar gael ar ein gwefan www.ysgolgyfunystalyfera.co.uk. Cofiwch hefyd ymuno â dilynwyr trydar Ystalyfera ar **@YsgolYstalyfera neu ar @ygybdcynradd** ein Cyfrif Cynradd a'r Cyngor Ysgol ar **@CYYGY.**

Prif Swyddogion 2018

Hoffwn ddiolch o galon i Molly Williams a Tom Ware am eu gwaith fel Prif Swyddogion yn 2017 ac i'r tîm cyfan sef Ffion Lowe, Morley Jones, Angharad Davies ac Osian Morris am eu brwdfrydedd, cefnogaeth a'u cwmni yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae'n hyfryd llongyfarch Harriet Horgan a Daniel Hiscocks ar gael eu hethol yn Brif Swyddogion, ac i Ben Griffin, Emily Evans, Megan Thomas a Morgan Meaclem am eu hethol yn Ddirprwy Brif Swyddogion. Dymunaf bob llwyddiant iddynt ac i'r capteiniaid llys am eu gwaith yn y flwyddyn i ddod.

Eisteddfod Ysgol

Fel arfer, byddwn yn cynnal ein Eisteddfod Ysgol ar Ddydd Gwener olaf yr hanner tymor hwn sef, y 16eg o Chwefror. Bydd cystadlaethau amrywiol ac edrychwn ymlaen at ddydd hwyliog dros ben o dan arweiniad Blwyddyn 12 a'r capteiniaid Llys a'u timoedd:

Gwenllïan: Kloe Chaplin (C), Lewis Blake (C), Jessica Williams, Alex Long, Hannah Evans, Tamzin Moran
Hywel: Melissa Gnojek (C), Ellis Bennett (C), Nia Morgan, Iwan Havard, Molly Wellington, Logan Walsh
Llywelyn: Sarah Pickett (C), Myles Protheroe (C), Mollie-Jo Rees, Joseph Lloyd-West, Heledd Llewelyn, Gwenllian Quirke, Louisa Carne.

Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog 2018

Fel y gwyddoch, mae Eisteddfod yr Urdd yn ymweld â Maes y Sioe amaethyddol yn Llanelwedd ym mis Mai. Gan fod nifer o'n disgyblion yn byw yn sir Brycheiniog rydym am gynnal wythnos o ddigwyddiadau i hyrwyddo'r Eisteddfod ac i godi ychydig o arian ar gyfer yr ŵyl. Bydd nifer o weithgareddau yn ystod yr wythnos (29ain Ionawr - 2ail Chwefror) gan gynnwys dydd gwisg eich hunan, ar Ddydd Gwener 2ail o Chwefror.

Rhifau Cyswllt ac Absenoldebau

Os ydych wedi newid cyfeiriad neu eich rhif ffôn symudol a wnewch sicrhau ein bod yn ymwybodol o hynny yn yr ysgol - diolch yn fawr. Os **NAD** ydych yn derbyn negeseuon testun gennym ar eich ffôn symudol - yna nid oes gennym eich rhif! Dylech gysylltu â'r Brif Swyddfa i ddiweddaru eich rhifau cyswllt. Cofiwch gysylltu â'r Brif Swyddfa cyn 9am os yw eich mab / merch yn absennol oherwydd salwch - a hynny ar bob bore o absenoldeb. Gofynnwn yn garedig ichi gysylltu â'r Brif Swyddfa hefyd os yw eich mab / merch yn dychwelyd i'r ysgol ar ffyn baglau er mwyn inni allu gwneud trefniadau pwrpasol.

Gwm Cnoi!

Nodwch os gwelwch yn dda, nad oes caniatâd i ddod a gwm cnoi i'r ysgol. Os bydd disgyblion yn dod a gwm cnoi i'r ysgol gall gael ei gymryd oddi wrthynt a gallant wynebu cosb bellach, diolch am eich cefnogaeth yn y mater hwn.

Diogelu ac e-ddiogelwch

Fel y gwyddoch, rydym yn gwbl ymrwymedig i ddiogelu a sicrhau lles a diogelwch disgyblion o fewn i gymuned yr ysgol. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi diweddaru'r adran ddiogelu ar ein gwefan i sicrhau ei fod yn gyfoes ac o gymorth ichi fel rhieni ac i'n disgyblion. Hoffwn eich atgoffa fod aelodau ein Tîm Arwain yn Swyddogion Diogelu Plant, ac y gallwch gysylltu â nhw yn rhwydd ac uniongyrchol o'r dudalen Diogelu ar ein gwefan. Mae ein rhaglen ABCh yn delio a materion e-ddiogelwch yn ogystal â'r cwricwlwm TGCh, ond rydym yn eich atgoffa'n garedig i sicrhau fod eich mab / merch yn deall peryglon cyfathrebu ar-lein ac os ydynt yn wynebu sefyllfaoedd anodd i gysylltu â ni am gymorth a chyngor pellach.

Presenoldeb & phrydlondeb

Mae presenoldeb uchel yn allweddol ar gyfer llwyddiant eich plentyn. Dylai pob plentyn anelu at bresenoldeb 100% er mwyn elwa'n llawn ar bob cyfle a ddarperir o fewn yr ysgol. Cofiwch rhaid ffonio'r ysgol ar fore'r cyntaf yr absenoldeb i'n hysbysu o unrhyw salwch. Hoffem hefyd ofyn am eich cefnogaeth o ran sicrhau prydlondeb i'r ysgol. Oni bai bod eich plentyn yn teithio ar fws ysgol sydd yn cyrraedd yn hwyr disgwylir i bob plentyn fod yn yr ysgol erbyn 8.35am er mwyn gallu cyrraedd cofrestru yn brydlon am 8.40. Mae bod yn brydlon ar gyfer diwrnod o waith yn rhan o baratoad ar gyfer y dyfodol. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth, bob amser.

Digwyddiadau'r Tymor

Ionawr 24	Adroddiadau Interim Bl 11
Ionawr 25	Noson Rieni Bl 11, 4 – 6:30pm
Ionawr 30	Cerddor & Canwr Ifanc y Rotari, 7pm
Ionawr 31	Adroddiad Interim Bl 12 & 13
Chwefror 1	Noson Rieni Bl 12 & 13, 4 – 6:30pm
Chwefror 2	Diwrnod gwisg anffurfiol, elw i'r Urdd, £1 y pen
Chwefror 6	Noson Opsiynau Bl 9, 5 – 7:30pm
Chwefror 7	Noson Cofio'r Holocost, Theatr y Dywysoges, Port Talbot, 6pm
Chwefror 12	Brechiadau Bl 8 & 9 (merched)
Chwefror 16	Eisteddfod Ysgol
	Taith Sgïo yr ysgol yn gadael
Chwefror 19 - 23	**Hanner Tymor**
Chwefror 28	Noson Agored Chweched (i Fl 11), 5 - 7pm
Mawrth 8	Noson Rieni Bl 10
Mawrth 27 - 29	Arholiadau Bl 9
Mawrth 29	Diwedd Tymor y Gwanwyn

Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth ddiflino i'r ysgol a chofiwch gysylltu â ni os hoffech fwy o fanylion.

Yn gywir,



Matthew H T Evans
Pennaeth

Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.
(01639) 842129
YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

January 2018

Dear Parent /Guardian,

Happy New Year – January 2018

At the start of a new year, we would wish to wish you all success and joy in the year ahead, and would wish to share with you some key events at school during this new term. As always, more up to date information can be found on our website, www.ysgolgyfunystalyfera.co.uk. Please also remember to follow our twitter accounts on **@YsgolYstalyfera** or on **@ygybdcynradd** our Primary Twitter account and our School Council account on **@CYYGY.**

Head Prefects 2018

Can I take this opportunity of thanking our Head Prefects in 2017, Molly Williams and Tom Ware for their diligent work and for their deputies, Ffion Lowe, Morley Jones, Angharad Davies and Osian Morris for their enthusiasm, support and good company. It is a real privilege to congratulate the Head Prefects for this year, Harriet Horgan and Daniel Hiscocks and to Ben Griffin, Emily Evans, Megan Thomas and Morgan Mecleam for being elected Deputy Head Prefects for 2018. I wish them all well in their work for the year ahead.

School Eisteddfod

We will hold our annual School Eisteddfod on the final Friday of this half term, the 16th of February. The day will include a host of different competitions and we look forward to a hugely enjoyable day under the leadership of Year 12 and the house Captains and their teams:

Gwenllian: Kloe Chaplin (C), Lewis Blake (C), Jessica Williams, Alex Long, Hannah Evans, Tamzin Moran
Hywel: Melissa Gnojek (C), Ellis Bennett (C), Nia Morgan, Iwan Havard, Molly Wellington, Logan Walsh
Llywelyn: Sarah Pickett (C), Myles Protheroe (C), Mollie-Jo Rees, Joseph Lloyd-West, Heledd Llewelyn, Gwenllian Quirke, Louisa Carne.

The Urdd Eisteddfod 2018

As you may well be aware, the Urdd Eisteddfod will be held on the Royal Welsh Showground in Builth Wells during the Whitsun half term. As so many of our pupils come from South Powys, we will be supporting the local eisteddfod with a week of activities to promote the festival (29th January – 2nd February) and raise some money to support the fundraising efforts. This will include non-uniform day on Friday the 2nd of February.

Contact Numbers and Absences

If you have changed address or your mobile phone number, please ensure that we are aware of that at school - thank you. If you do not receive text messages on your mobile phone - then we do not have your number! You should contact the Office to update your contact numbers. Remember to contact the Office before 9am if your son / daughter is absent due to illness - on every morning of absence.

Chewing Gum!

Please note that chewing gum is not permitted in school. Can we kindly ask for your wholehearted support in this matter as the litter problem and damage to school furniture and furnishings it causes is considerable. Diolch yn fawr.

Safeguarding and e-safety

As you know, we are fully committed to safeguarding and securing the welfare and safety of pupils within the school community. With this in mind, we have updated the safeguarding section on our website to make it up-to-date and help you as parents and our pupils. I would like to remind you that the members of our Senior Leadership Team are Safeguarding Children Officers, and that you can contact them easily and directly from the Safeguarding page on our website. Our PSE program deals with e-safety issues as well as the ICT curriculum, but we remind you kindly to ensure that your son / daughter is fully aware of the dangers of online communication and if they are facing difficult situations to contact us for further help and advice.

Attendance & Punctuality

High attendance is key to your son/daughter's success at school. All pupils should aim towards 100% attendance in order to benefit from the whole educational offer within the school. Can we kindly remind you to phone us on the first day of your child's illness and to keep us informed of their progress. We would also like to ask for your support in ensuring punctual registration. If your child does not rely on school transport, you are kindly reminded that all pupils should be in school by 8.35am in order to attend registration at 8.40am. Thank you for your continued support in these matters.

Term events

January 24	Year 11 Interim Reports
January 25	Year 11 Parents Evening, 4 – 6:30pm
January 30	Rotary Young Musician & Singer, 7pm
January 31	Year 12 & 13 Interim Reports
February 1	Year 12 & 13 Parents Evening, 4 – 6:30pm
February 2	Non-uniform day, Urdd fundraiser £1 per head
February 6	Year 9 Options Evening, 5 – 7:30pm
February 7	Holocaust Memorial Evening, Princess Royal Theatre Port Talbot, 6pm
February 12	Year 8 & 9 Inoculations (girls)
February 16	School Eisteddfod
	Ski Visit departs
February 19 - 23	**Half Term**
February 28	Sixth Form Open Evening (for Year 11), 5 - 7pm
March 8	Year 10 Parents Evening
March 27 - 29	Year 9 Examinations
March 29	End of Spring Term

Thank you for your continued support.

Yours truly,



Matthew H T Evans
Head